Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

# Manylion am gyflogau aelodau'r teulu a gyflogir gan Aelodau'r Cynulliad

12 Ionawr 2015

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 10 Rhagfyr, pan wnaethoch ofyn:

*A oes modd ichi ddarparu'r wybodaeth a ganlyn am Aelodau'r Cynulliad yng Nghymru yn cyflogi aelodau'r teulu. Ar gyfer pob aelod o'r teulu a gyflogir ar hyn o bryd gan Aelod Cynulliad, a fyddech cystal â rhoi manylion am eu cyflogau.*

Gallaf gadarnhau bod gennym y wybodaeth y gofynnir amdani. Fodd bynnag, mae'n cynnwys data personol at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998. Rydym o'r farn y byddai datgelu'r symiau a delir i aelodau o staff cymorth yn mynd yn groes i egwyddor diogelu data gyntaf Deddf Diogelu Data 1998. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ('y Ddeddf'). Mae manylion pellach am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r casgliad hwn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Fodd bynnag, er mwyn darparu gwybodaeth ichi, tra'n cydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, rydym wedi darparu manylion am gyflogau staff ar ffurf ddienw.

| | **Ebrill 2014 - Tachwedd 2014** |
|---|---:|
| **Band 1** (£23,049 - £32,532) | 4 |
| **Band 2** (£19,684 - £28,856) | 7 |
| **Band 3** (£17,824 - £24,037) | 5 |
| **Cyfanswm nifer y staff cymorth** | 16 |
| **Cyfanswm y cyflog gros a delir** | £174,028 |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 20 89 8635
E-bost / Email: Buddug.Saer@cynulliad.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

Gall yr Aelodau ddefnyddio adnoddau i gyflogi staff ac i redeg swyddfeydd yn eu hetholaethau er mwyn ymdrin â phroblemau ac achosion a godir gan y rhai y maent yn eu cynrychioli.  Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Bwrdd Taliadau') sy'n pennu'r adnoddau sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad.  Mae Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ('y Penderfyniad') yn nodi y gall Aelod Cynulliad hawlio lwfans i dalu cyflog hyd at dair swydd barhaol cyfwerth ag amser llawn (mewn gwirionedd, gall gynnwys staff amser llawn a staff rhan-amser).  Mae rhagor o wybodaeth ym mharagraff 7.1 y Penderfyniad diweddaraf.

Cyflogir staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ar fandiau cyflog penodedig ac ar bwyntiau cyflog penodedig, fel y nodir yn y Penderfyniad a rhaid iddynt gael eu cyflogi yn unol â Pholisi Recriwtio'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

Mae'r polisi recriwtio yn nodi'r canlynol:

> *Bydd penodi aelodau o deulu Aelod Cynulliad ond yn cael ei ganiatáu os na fydd yr Aelod yn chwarae unrhyw ran yn y broses ddethol. Yn hytrach, bydd y broses hon yn cael ei chyflawni gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau.*
>
> *Os na fydd aelod o'r teulu yn cael ei gynnwys ar y rhestr fer neu os bydd yn penderfynu tynnu ei gais yn ôl, yr Aelod Cynulliad fydd yn gyfrifol am y broses recriwtio unwaith eto.*

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Atodiad**

Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani (sef cyflogau staff cymorth cyfredol Aelodau'r Cynulliad sy'n aelodau o deulu eu cyflogwyr) yn rhan o'r diffiniad o ddata personol yn Neddf Diogelu Data 1998, sef:

> "data which relate to a living individual who can be identified from those data, or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller".

Felly, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o'r Ddeddf, lle y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data.

Mae'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data, fel y nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 1998 yn nodi:

> "Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met..."

Wrth benderfynu a fyddai datgeliad yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau datgelu'r wybodaeth hon, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw, a'r cydbwysedd rhwng hawliau'r unigolion ac unrhyw fudd dilys sy'n deillio o'r datgeliad. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth. Caiff y cyflogau dan sylw eu gwneud yn unol â staff yn darparu gwasanaethau cyflogaeth i'r Aelod Cynulliad sy'n eu cyflogi. Yn ei dro, mae'r swm yn ymwneud â'u sefyllfa ariannol ac maent o natur breifat. Nid yw'r staff yn disgwyl i wybodaeth am eu cyflog gael ei chyhoeddi. Yn hytrach, mae'r rheolau sy'n ymwneud â pha daliadau a gaiff (ac na chaiff) eu gwneud wedi'u cyhoeddi, fel y nodir yn y Penderfyniad.

Er gwaethaf ein barn ynghylch sicrhau tegwch, aethom ymlaen i drafod Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 1998. Nid yw unrhyw un o'r amodau yn Atodlen 2 yn berthnasol, heblaw paragraff 6, sy'n caniatáu prosesu gwybodaeth bersonol fel a ganlyn:

> "The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom

the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- Mae'n rhaid bod budd cyhoeddus dilys mewn datgelu'r wybodaeth;
- Mae'n rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; a
- Mae'n rhaid sicrhau nad yw'r datgeliad yn achosi ymyrraeth ddiangen yn hawliau, rhyddid a buddiannau cyfreithlon y person.

Mae tryloywder yn gyffredinol, ac yn benodol, cael gwybod lefel y cymorth, a'r ffiniau o ran y cymorth a gaiff Aelodau'r Cynulliad fel y gallant gyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys darparu cymorth staffio, o fudd i'r cyhoedd. Yn ein barn ni, caiff budd y cyhoedd ei fodloni yn yr achos hwn drwy ddatgelu'r cyfanswm a delir ynghyd â datgelu hynny ar ffurf ddienw.

O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'n angenrheidiol datgelu'r symiau penodol a delir i staff cymorth unigol i fodloni budd y cyhoedd. Felly, ein casgliad yw na fyddai'n bosibl bodloni un o'r amodau yn Atodlen 2.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF